

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 10/03/20

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr A.Hopcyn, C.Larsen (Cadeirydd), W.T.Owen, J.W.Parry,
I.C.Thomas, R Thomas

Ken Owen, Swyddog Gofal a Chadw

Trefnwyd slot i Ken Owen ymuno â'r cyfarfod i drafod ei waith.

Nododd Ken y canlynol:

- Bod y sefyllfa o ran blerwch a sbwriel yn y dref ar gynnydd.
- Bod baw ci yn broblem gynyddol.
- Bod cytundeb gyda Cyngor Gwynedd nad oedd Ken yn glanhau canol y dref, a bod ei ymdrechion yn mynd tuag at y stadau tai ac yn y blaen ar gyrion y dref. Roedd glanhawyr Cyngor Gwynedd yn glanhau canol y dref.
- Bod y llwybr o Cae Gwyn tuag at Ysgol Syr Hugh Owen yn flêr iawn, a bod angen bin ychwanegol.
- Bod "fly tipping" ar gynnydd.
- Ei fod yn meddwl fod angen 32 bin ychwanegol yn y dref, ond y broblem yw pwy fydda'i eu gwagio?
- Ei fod angen gwneud tri trip y diwrnod i waredu'r gwastraff yn ei fan yn Cibyn.
- Efallai y bod modd cael gweithiwr ychwanegol i'w helpu?
- Ei fod yn cael cyfarfod misol gyda Rheolwr McDonalds, ac roedd hyn yn adeiladol iawn.

Nodwyd bod McDonalds yn glanhau y tir o amgylch y safle, a tybed oedd modd gofyn i siopau eraill yng Nghaernarfon wneud yr un peth?

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'n ôl o lanhau strydoedd ar gyrion Caernarfon ers i Ken ddechrau. Fodd bynnag roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi beth ddylai ddigwydd. Byddai'n fuddiol pe bai Cyngor Gwynedd yn gwneud eu glanhau ar ddydd Gwener, wedi'r biniau ail-gylchu gael eu casglu ar ddydd lau.

Nodwyd fod pawb yn canmol y gwaith da roedd Ken yn ei wneud o amgylch y dref.

Penderfynwyd:

- (1) Y dylai'r Clerc anfon neges at yr holl Gyngorwyr i ddatgan y dylai'r holl geisiadau am waith i Ken, fynd trwyddo fo yn hytrach na bod Cyngorwyr yn cysylltu efo Ken yn uniongyrchol. Dylid

hefyd datgan fod gan Ken yr hawl i fynd i bob rhan o'r dref i wneud ei waith.

- (2) Gan fod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'n ôl o lanhau strydoedd ar gyrion Caernarfon ers i Ken ddechrau, y dylid rhoi pwysau arnynt i wagio biniau.
- (3) Y dylai'r Clerc drefnu cyfarfod efo Steffan Jones, Pennaeth yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol, er mwyn trafod yr hyn a nodir yn (2) uchod.
- (4) Gofyn i'r Clerc gysylltu efo Steffan Jones er mwyn cael eglurder beth oedd y sefyllfa o ran camerâu CCTV yn y dref.
- (5) Gofyn i Ken wneud rhestr o'r biniau oedd eu hangen, mewn trefn blaenoriaeth i'r Clerc.
- (6) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau efo Cyngor Gwynedd os oedd cerbyd ar gael i Ken, er enghraifft cerbyd fflyd wedi cyrraedd diwedd ei oes (byddai angen i'r cerbyd gael cawell ar ei gefn).

1.Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd W.R.Owen

2.Datgan Buddiant Personol

Y Cyngorydd J.W.Parry – eitem 4 – Parc Coed Helen.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar Parc Coed Helen. Trafodwyd y materion canlynol:

(1) Creu rhestr o gwestiynau i'w hanfon at Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd o ran y Gytundeb Tenantiaeth / Rhent / Cyflogaeth

Nododd y Clerc bod angen dau beth, sef rhestr o gwestiynau i'r Uned Gyfreithiol o ran cyflogaeth a thenantiaeth y tenant presennol, a phenderfyniad i ffurfioli'r trefniant.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon y cwestiynau canlynol i'r Uned Gyfreithiol:

- Beth yw'r cytundeb presennol?
- Beth yw'r rhent a phris y farchnad?
- Os yw'r denantiaeth yn newid, beth yw hawliau'r ddwy ochr?
- Beth yw'r sefyllfa o ran TUPE?
- Beth yw'r sefyllfa o ran talu'r gŵr o ran y gwaith glanhau?

Penderfyniad pwyllgor i ffurfioli'r trefniant

Bydd angen i trafod tenantiaeth y fflat efo'r tenant, ar gyfer y cyfnod ar ôl i'w swydd efo Byw'n lach dod i ben.

(2) Y trefniadau o ran contractwyr cynnal tiroedd.

Nododd y Clerc ei fod wedi cael cyfarfod ar y safle efo un o'r Contractwyr, ac wedi esbonio wrtho y byddai'n rhaid cael 3 cwôt. Mewn ychydig ddyddiau roedd y Contractwr wedi cysylltu efo'r Clerc er mwyn cyflwyno ei gwôt. Roedd hyn yn gynamserol oherwydd roedd angen gofyn am cwôt ffurfiol gan 3 cwmni. Nid oedd y Clerc wedi cael cyfle i gysylltu efo neb arall eto.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ddilyn y Cwôts i fyny cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(3) Cyflwr y maes parcio.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt lenwi'r tyllau a marcio'r maes parcio.

(4) Cyflwr y parc sglefrio.

Nodwyd fod cyflwr y parc sglefrio reit dda, ond gofynnwyd beth oedd oes offer mewn parc o'r fath.

(5) Pen Telerau – Prydles Newydd.

Bydd y Pen Termiau yn cael eu defnyddio gan Eiddo a Cyfreithiol i greu dogfen ffurfiol.

(6) Costau a thelerau parcio.

Trafodwyd yr opsiynau o amgylch y peiriannau parcio, a bod angen mwy o eglurder gan Gyngor Gwynedd.

Nodwyd y byddai'n bosib dod i ryw fath o drefniant efo aelodau'r Clwb Criced o ran parcio.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn:

- (1) Sicrhau fod y paneli solar ar y peiriannau pario yn gweithio a beth oedd y drefn o ran talu efo cerdyn.**
- (2) Sicrhau eglurder o ran os oedd angen Gorchymyn Parcio, allasai gymryd misoedd i'w roi mewn lle.**

(7) Cyflenwadau Ynni.

Nododd y Clerc:

- (1) Bydd y trosglwyddiad ynni yn cael ei drefnu gan yr Adran Eiddo cyn y dyddiad trosglwyddo.**

- (2) Bod Ken Jones, o Adran Economi a Chynllunio Cyngor Gwynedd, wedi derbyn e-bost gan Paul Ayling, Swyddog Cadwraeth Ynni (Rheoli Data) Cyngor Gwynedd. Roedd yn gofyn os oedd modd cadarnhau os gellir symud oddi ar fframwaith ynni'r Cyngor. Os fyddai'r Cyngor Tref yn aros bydd modd manteisio ar gostau trydan rhatach, ond i wneud hyn bydd angen bod yn ran o 'one bill' Cyngor Gwynedd, a bydd angen darparu côd ledjer ar gyfer hyn.

Penderfynwyd gwahodd Paul Ayling i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith i drafod y mater ymhellach.

(8) Coed / TPO's.

Bydd y Cyngor Tref yn mynnu fod Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliadau coed manwl oherwydd y costau mawr allasai godi.

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi holi'r Adran Eiddo am y TPOs, y coed a'r aceri.

Penderfynwyd bod angen bod yn hollol sicr nad oedd coed sydd ddim yn ddiogel ar y safle.

(8) Costau eraill e.e. trwsio'r lôn, / goleuadau

Nodwyd bod yr Adran Economi a Chymuned wedi holi os yw'r goleuadau yn dod ymlaen trwy'r nos. Ar hyn o bryd mae nhw yn dod ymlaen am 6.00 p.m. ac i ffwrdd 8.00 p.m. (amserydd). Ar ôl troi clociau byddant i ffwrdd tan ddiwedd Hydref.

(9) Clwb Criced – Toriadau Gwair a Lês.

Nodwyd:

- (1) Yn y cyfarfod blaenorol, nodwyd bod llain y clwb criced angen 24 toriad y flwyddyn, a bod y clwb yn cyflogi cwmni allanol i wneud toriad pellach. Roedd gan y clwb beiriant torri gwait ac roeddynt yn fodlon gwneud toriadau ychwanegol eu hunain.
- (2) Bod angen toriadau yn ystod y tymor criced, sef cyfnod o tua 5 mis y flwyddyn.
- (3) Erbyn hyn fod y Clwb Criced yn sôn am gael lês 10 mlynedd, a bod angen dealltwriaeth gan Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd o ran sut fyddai hyn yn gweithio. Roedd hyn oherwydd bod y Clwb yn awyddus i ddatblygu adnoddau criced ar y safle, yn cynnwys lawnt gwair (sydd eisoes yn ei le), cawell criced symudol a Phafiliwn. Er mwyn sicrhau cymorth ariannol byddai'n rhaid cael o leiaf 10 mlynedd o les yn hytrach na les bob blwyddyn.
- (4) Byddai'n rhaid i'r Cyngor Tref drafod efo'r Clwb Criced y mater o fabwysiadau'r trefniant (is-brydles) fel rhan o dderbyn y brydles am y safle gyfan.

Penderfynwyd:

- (1) **Bod angen eglurder gan y Clwb Criced o ran cyfanswm y toriadau a pha mor aml oedd angen toriadau, er mwyn sicrhau and oedd unrhyw gostau cudd ac ychwanegol yn disgyn ar y Cyngor Tref.**
- (2) **Bod angen eglurder o ran beth oedd termau les y Clwb Bowlio.**
- (3) **Gofyn i'r Clerc drefnu ymweliad safle i'r aelodau ym Mharc Coed Helen**

5. Graffiti

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar graffiti yn y dref. Roedd wedi cysylltu efo cwmni Gwalch eto, ac roeddynt am anfon dyddiadau er cynnal cyfarfod safle yn y dre.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

6. Torri Gwair

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar dorri gwair.

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi gostwng y toriadau blynyddol o chwech i dri, ac yna eu codi yn ôl i bedwar. Nid oedd llawer o gwynion wedi dod i law.

Penderfynwyd nodi bodlonrwydd gyda pedwar toriad y flwyddyn.

7. Biniau Halen

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar finiau halen yn y dref, yn nodi nad oedd problemau wedi codi eleni, ond ein bod wedi bod yn ffodus o'r tywydd mwyn dros y gaeaf.

Penderfynwyd, i'r dyfodol, y dylid gofyn i'r Clerc fapio allan y biniau halen yn y dref er mwyn gweld os oedd ardaloedd problemus, er enghraifft elltydd heb finiau, a gofyn i Gyngor Gwynedd am eu caniatâd i roi arwydd ar y biniau yn nodi mai'r Cyngor Tref sy'n gyfrifol.

8. Tylluan i gael gwared o wylanod

Holodd y Clerc os oedd angen iddo drefnu i'r tylluan ddod draw eleni, fel sydd yn arfer digwydd. Byddai'r tylluan yn rhwystro gwylanod rhag nythu.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo perchennog y dylluan cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____